Rhif: WG37633

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# A483: astudiaeth trafnidiaeth Llandeilo a Ffairfach

Dyddiad cyhoeddi: 02 Ebrill 2019

Cam gweithredu: Ymatebion erbyn 06 Mai 2019

OGL © Crown Copyright

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae opsiynau trafnidiaeth posibl yn cael eu hystyried i fynd i'r afael â materion o bryder ynghylch y rhwydwaith ffyrdd presennol yn nhref Llandeilo a phentref Ffair-fach.<br><br>Hoffem glywed eich barn ar yr opsiynau arfaethedig sydd ar y rhestr fer.<br><br>Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys set o gwestiynau penodol. Croesawn eich ymateb. |
| **Sut i ymateb** | Cwblhewch a dychwelwch y ffurflen ymateb holiadur i'r cyfeiriad isod erbyn 06 Mai 2019. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>https://llyw.cymru/a483-astudiaeth-trafnidiaeth-ar-gyfer-llandeilo-ffairfach |
| **Manylion Cysylltu** | Post:<br>FREEPOST A483 Llandeilo and Ffairfach<br><br>e-bost: A483-Llandeilo@capita.co.uk |

## Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu’r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy’n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu’r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion cyn cyhoeddi’ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i’w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu’r data
- (o dan rai amgylchiadau) i’ch data gael eu ‘dileu’
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:
Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ
e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745
neu 0303 123 1113

Gwefan: https://ico.org.uk/

**Cyflwyniad**
Rydym yn gweithio gyda Capita Real Estate and Infrastructure ar gynigion i fynd i'r afael â materion o bryder ynghylch y rhwydwaith ffyrdd presennol yn nhref Llandeilo a phentref Ffair-fach.

Rydym wedi edrych ar nifer o opsiynau i wella'r rhwydwaith ffyrdd ac rydym nawr yn ceisio'ch adborth chi i'r gwahanol gynigion.

**Beth yw'r prif broblemau?**
Nodwyd y canlynol fel materion o bryder:
• Diogelwch;
• Cyflymdra traffig;
• Cyfyngiadau'r rhwydwaith;
• Parcio;
• Llif traffig tymhorol;
• Llwybrau dargyfeirio annigonol;
• Amgylchedd defnyddwyr heblaw modurwyr;
• Dim seilwaith beicio;
• Cyfeirio defnyddwyr heblaw modurwyr;
• Ansawdd trafnidiaeth gyhoeddus;
• Llygredd; a
• Sŵn.

**Beth fydd yn digwydd heb unrhyw newid?**
• Os na fydd newidiadau i'r A483 a'r rhwydwaith ffyrdd cyfagos, bydd y tagfeydd traffig cyfredol, yn arbennig wrth y man cul o flaen y Cawdor yn Llandeilo, yn parhau.
• Bydd y tagfeydd a cherbydau segur yn gyfochr ag ardaloedd preswyl yn parhau i gael effaith niweidiol ar sŵn ac ansawdd yr aer.
• Bydd y treflun a'r dreftadaeth ddiwylliannol yn parhau i ddioddef effeithiau niweidiol yn sgil tagfeydd mewn Ardal Gadwraeth ac yn gyfochr ag adeiladau rhestredig.
• Bydd effaith ychydig yn niweidiol yn parhau o safbwynt newidiadau/dibynadwyedd amseroedd teithio, gweithgaredd corfforol, ansawdd teithio, damweiniau, mynediad at gyflogaeth/gwasanaethau, gwahanu cymunedau a theithio llesol.

**Beth yw'r sefyllfa bresennol?**

Mae'r ymgynghoriad yn gam pwysig yn y broses Arweiniad ar Gynllunio ac Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG 2017), ac yn darparu adborth ynghylch Cam 1: Achos Amlinellol WelTAG a gynhaliwyd gan Jacobs UK Limited (Jacobs) a Mott MacDonald.

Bydd yr Achos Amlinellol ar Gam Un yn hysbysu Cam Dau: Achos Busnes Amlinellol WelTAG, y mae Capita Property and Infrastructure yn ei gynnal ar ein rhan. Mae Canllawiau WelTAG yn sicrhau fod y cynllun a ddewisir:

- yn dangos gwerth am arian
- yn cynnig manteision trafnidiaeth, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol
- yn cyflenwi'r budd mwyaf posibl gyda'r effaith leiaf posibl

Fel rhan o adolygiad Cam Dau, nodir dewis sy'n cael ei ffafrio.

**Pa opsiynau sydd dan ystyriaeth?**

Yn seiliedig ar yr arfarniad, mae'r opsiynau sy'n sgorio uchaf, ac o ganlyniad y rhai yr argymhellir eu hystyried ymhellach yng Nghyfnod Dau WelTAG, wedi'u crynhoi isod.

NB1: Goleuadau traffig, dim ffordd osgoi
NB2: Dileu parcio, dim ffordd osgoi
NB5: Cyfyngiad HGV (cosb gyfreithiol) a system unffordd
NB6: Opsiwn cyfun heb ffordd osgoi (gyda chyfyngiad HGV)
NB7: Opsiwn cyfun heb ffordd osgoi (dim cyfyngiad HGV)
TC1A: System Unffordd a Ffordd Osgoi (a)
BE1A: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (A)
BE1B: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (B)
BE1C: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (C)
BE4D: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Canol Rhosmaen Opsiwn 4 (D)
BE6: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol 6

Ar gyfer yr opsiynau hynny sydd dros £60 miliwn, rhagwelir dull fesul cam o weithredu, gyda chwblhad llawn yn seiliedig ar fonitro ac ariannu wrth i'r cynllun fynd rhagddo. Dim ond o sicrhau cyllid ychwanegol y gellid cynnwys y cymalau ychwanegol i osgoi Ffair-fach ar lwybrau BE1A, BE4D a BE6.

Nid oes unrhyw statws i'r opsiynau a ddewiswyd. Cytunwyd arnynt fel sail ar gyfer ymgynghori gan Grŵp Adolygu o randdeiliaid allweddol.

**Sut alla'i ddysgu mwy?**

Rydym yn cynnal fforymau cyhoeddus, ble gallwch weld rhagor o wybodaeth am y cynllun arfaethedig a chyfarfod ein tîm prosiect, a fydd yn ateb unrhyw gwestiwn sydd gennych.

Cynhelir y digwyddiadau ymgynghori yn Neuadd Ddinesig Llandeilo Fawr, 19 Heol Cilgant, Llandeilo, SA19 6HW ar:

- Dydd Mawrth 2 Ebrill 2019: 13:00 - 17:00
- Dydd Mercher 3 Ebrill 2019: 13:30 - 19.30
- Dydd Sadwrn 6 Ebrill 2019: 09:30 - 12:30

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar ein gwefan https://llyw.cymru/astudiaeth-trafnidiaeth-a483-llandeilo-a-ffair-fach

## Sut alla'i wneud sylw?

Rydym eisiau clywed eich barn ar y cynllun arfaethedig. Gallwn wedyn ystyried eich barn a'ch sylwadau wrth ddatblygu'r argymhelliad terfynol. Mae sawl ffordd y gallwch wneud sylw:

- cwblhewch y ffurflen ymateb i ymgynghoriad ar ddiwedd y daflen hon a'i dychwelyd atom yn FREEPOST A483 Llandeilo and Ffairfach;
- Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein yn: https://llyw.cymru/a483-astudiaeth-trafnidiaeth-ar-gyfer-llandeilo-ffairfach;
- mynychu un o'n digwyddiadau ymgynghori ble bydd copïau papur o'r ffurflen ymateb ar gael;
- e-bostio: A483-Llandeilo@capita.co.uk neu
- ysgrifennwch at: FREEPOST A483 Llandeilo and Ffairfach

Er mwyn helpu i lunio'n cynllun terfynol, dychwelwch eich ymateb erbyn 06 Mai 2019.

## Camau Nesaf

Byddwn yn adolygu pob sylw ac awgrym unwaith y bydd cyfnod adborth yr ymgynghoriad wedi dod i ben. Byddant yn cael eu dadansoddi a'u hystyried fel rhan o'r broses WelTAG. Byddwn hefyd yn llunio adroddiad i grynhoi ymatebion yr adborth.

Darperir diweddariadau ynghylch cynnydd y cynllun yna: https://llyw.cymru/a483-llandeilo-trosolwg.

## Ffurflen ymateb i ymgynghoriad

**Astudiaeth trafnidiaeth A483 Llandeilo a Ffair-fach**

1) Pa un o'r opsiynau canlynol sydd orau gennych chi? (ticiwch)

| Gwelliannau canol tref | Cyfuniad: ffordd osgoi a gwelliannau canol tref | Ffordd osgoi |
|---|---|---|
| | | |

2) Nodwch hyd at 3 dewis yn y drefn yr ydych yn eu ffafrio (gydag 1 y mwyaf ffafriol)

| Gwelliannau canol tref | | Cyfuniad: ffordd osgoi a gwelliannau canol tref | | Ffordd osgoi | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Opsiwn** | | **Opsiwn** | | **Opsiwn** | |
| NB1: Goleuadau traffig, dim ffordd osgoi | | TC1A System Unffordd a Ffordd Osgoi | | BE1A: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (A) | |
| NB2: Dileu parcio, dim ffordd osgoi | | | | BE1B Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (B) | |
| NB5: Cyfyngiad HGV (cosb gyfreithiol) a system unffordd | | | | BE1C: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (C) | |
| NB6: Opsiwn cyfun heb ffordd osgoi (gyda chyfyngiad HGV) | | | | BE4D: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Canol Rhosmaen Opsiwn 4 (D) | |
| NB7: Opsiwn cyfun heb ffordd osgoi (dim cyfyngiad HGV) | | | | BE6: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 6 | |

3) Pa opsiwn arfaethedig yw'r ateb gorau i gyflawni'r amcanion a bennwyd, sef:

a) Cadw swyddogaeth strategol yr A483;

b) Gwella diogelwch cerddwyr a beicwyr yn Llandeilo a Ffair-fach, gan gynnwys llwybrau diogel i'r ysgol;

c) Lleihau gwahanu cymunedol yn Llandeilo a Ffair-fach;

d) Gwella dibynadwyedd amser teithio trwy Landeilo a Ffair-fach;

e) Lleihau tagfeydd trwy Landeilo;

f) Cyfrannu at dwf economaidd cynaliadwy a chyfleoedd twristiaeth yn Llandeilo;

g) Lleihau amlygiad i lygredd aer ar gyfer derbynyddion sensitif; a

h) Cefnogi pontio i gymdeithas carbon isel gan sicrhau bod yr ateb yn gynaliadwy a gwydn, a'i fod yn lleihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'r seilwaith trafnidiaeth sy'n cynnwys gwella mynediad at, a darpariaeth, trafnidiaeth gyhoeddus.

| Ateb Arfaethedig | Ticiwch os ydych yn cytuno | Ateb Arfaethedig | Ticiwch os ydych yn cytuno |
|---|---|---|---|
| **NB1:** Goleuadau traffig, dim ffordd osgoi | | **BE1A**: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (A) | |
| **NB2**: Dileu parcio, dim ffordd osgoi | | **BE1B**: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (B) | |
| **NB5**: Cyfyngiad HGV (cosb gyfreithiol) a system unffordd | | **BE1C**: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (C) | |
| **NB6**: Opsiwn cyfun heb ffordd osgoi (gyda chyfyngiad HGV) | | **BE4D**: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Canol Rhosmaen Opsiwn 4 (D) | |
| **NB7**: Opsiwn cyfun heb ffordd osgoi (dim cyfyngiad HGV) | | **BE6**: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 6 | |
| **TC1A**: System Unffordd a Ffordd Osgoi | | | |

4) Pa opsiwn arfaethedig yw'r ateb gorau i gyflawni amcanion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu;
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

| Ateb Arfaethedig | Ticiwch os ydych yn cytuno | Ateb Arfaethedig | Ticiwch os ydych yn cytuno |
|---|---|---|---|
| **NB1:** Goleuadau traffig, dim ffordd osgoi | | **BE1A**: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (A) | |
| **NB2**: Dileu parcio, dim ffordd osgoi | | **BE1B**: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (B) | |
| **NB5**: Cyfyngiad HGV (cosb gyfreithiol) a system unffordd | | **BE1C**: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (C) | |
| **NB6**: Opsiwn cyfun heb ffordd osgoi (gyda chyfyngiad HGV) | | **BE4D**: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Canol Rhosmaen Opsiwn 4 (D) | |
| **NB7**: Opsiwn cyfun heb ffordd osgoi (dim cyfyngiad HGV) | | **BE6**: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 6 | |
| **TC1A**: System Unffordd a Ffordd Osgoi | | | |

5) Rydym wedi holi nifer o gwestiynau penodol. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod amdanynt:

| Ysgrifennwch yma: |
| --- |
| |

Os gwelwch yn dda, darparwch

Eich enw:

e-bost:

Eich cyfeiriad:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Ticiwch yma os ydych chi'n caniatáu i ni gyhoeddi eich ymateb.

| |
| --- |